

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 16

Key language

Past Tense of 'bod'

Rhaid

Piau

New words

ar goll	-	lost
cawlach (SW)	-	a mess
y cyfan	-	the only thing
gwerth	-	worth
cytuno	-	to agree
bodlon	-	willing
gweddill	-	the rest
codi twrw (NW)	-	causing trouble
rheswm	-	reason
fyny ac i lawr	-	up and down
cymydog	-	neighbour
bord (SW)	-	table
dianc	-	to escape
hala (SW)	-	to send
penigamp	-	excellent
safonau	-	standards
hast (SW)	-	a hurry
gwella	-	improving
yn enwedig	-	especially
canolbwyntio	-	concentrate
dod o hyd i	-	to find
dilyn	-	to follow
erchyll	-	terrible
diflannu	-	to disappear
amau	-	to doubt
dishgwl (SW)	-	look
rhywdro	-	sometime
pwyllo	-	to calm down
agwedd	-	attitude
pryd o dafod	-	a telling off
cyfreithwraig	-	solicitor (female)
pellach	-	further
gwybodaeth	-	information

Main Grammatical Points

Fues i can be translated in English as I have been to, I was or I went to:

For example:	Fues i i Aberystwyth	I went to Aberystwyth
	Fues i'n canu	I've been singing
	Fues i'n lwcus	I was lucky

Here are the full forms:

Fues i	Fues i ddim
Fuest ti	Fuest ti ddim
Fuodd e/o	Fuodd e/o ddim
Fuodd hi	Fuodd hi ddim
Fuon ni	Fuon ni ddim

Fuoch chi
Fuon rhw

Fuoch chi ddim
Fuon nhw ddim

Question forms are Fuest ti? or Fuodd hi?
And the answer for all persons of the verb is Do or Naddo

Rhaid

Let's have a look at:

Mae rhaid i fi

The full forms of rhaid are

Mae rhaid i fi

Mae rhaid i ti

Mae rhaid iddo fo/fe

Mae rhaid iddi hi

Mae rhaid i ni

Mae rhaid ichi

Mae rhaid iddyn nhw

Notice that the soft mutation follows the pronoun

Mae rhaid i fi fynd

In the past tense - I had to, the form is Roedd rhaid i fi

And in the future - I'll have to is Bydd rhaid i fi.

The other form that you might here is

Dw i'n gorfod

Dw i'n gorfod mynd - I have to go or I must go.

Piau

Note the construction for ownership - often expressed in English by mine, yours, his and theirs.

Fi biau hwn

I own this or this is mine

Ti biau'r car yna

That's your car

Pwy biau hwn

Whose is this?

The questions are formed by voice inflection

Chi biau hwn?

Is this yours? and the answer always Ie or Nage

Ysbyty Brynaber: Episode 46

Wendy and Dic have returned from their skiing holiday. Things are not good between them.

Arwyn and Jenny are in the hospital canteen discussing Brian's affair. Wendy arrives and tells them that she is most concerned about Brian's violent mood swings.

Geirfa

ar goll	-	lost
cawlach(SW)	-	a mess
y cyfan	-	the only thing
gwerth	-	worth
cytuno	-	to agree
bodlon	-	willing
gweddill	-	the rest
codi twrw (NW)	-	causing trouble
rheswm	-	reason
fyny ac i lawr	-	up and down
cymydog	-	neighbour
bord (SW)	-	table
dianc	-	to escape
hala (SW)	-	to send

Golygfa 1

Wendy - Gest ti droli?

Dic - Do. Fues i'n lwcus. Ydy'n cesus ni wedi cyrraedd eto?

Wendy - Na. Ddim eto...

Dic - Beth am hwn sy'n dod nawr? Yr un gwyrdd yma? Tŷ biau hwn?

Wendy - Nage....

Dic - Siwr nawr?

Wendy - Ydw. Siwr.

Dic - Ti'n teimlo'n O.K.?

Wendy - Fine. Pam ti'n gofyn?

Dic - Jyst gofyn. Dacw 'nghes i'n dod... Dyna ni... Gobeitho bod dy ges di heb fynd ar goll ar y ffordd yn ôl hefyd fel aeth e ar y ffordd mas i Nice via Oslo. Dyna beth fyddai cawlach!

Wendy - You're just not going to let this go are you?

Dic - Beth?

Wendy - Paid actio'n dumb, Dic! Ti'n gwybod beth.

Dic - Edrycha. Ddwedais i rywbeth am yr arian 'na gafodd ei ddwyn o dy siwtces di wedyn? Naddo. Ddwedais i ddim byd. Ddwedais i ddim byd yn y 'chalet'. Yn y bar. Ar y 'slopes'. Y cyfan oeddwn i eisiau i ni wneud oedd sgïo. A joio...

Wendy - Na. ddwedest ti ddim byd. Ond oedd hi'n 'obvious' i fi ei fod e'n dal ar dy feddwl di. Fy mod i'n 'idiot' i roi gwerth £500 o Euros yn fy siwtces...

Dic - Tŷ oedd yn meddwl hynny.

Wendy - Dic. Don't bullshit me. Dw i'n gallu dy ddarllen di fel llyfr - O.K.?

Dic - Wendy, dw i ddim yn gwybod pam wyt ti'n mynd ymlaen am hyn...

Wendy - Dw i ddim! Ti sy'n -

Dic - Nage. Ti sy'n mynd 'on' am y peth.

Wendy - Look, let's cut this conversation right now.

Dic - Ie. O.K. Iawn. ddwedwn ni ddim byd arall.

Wendy - Let's not say another single word to each other nes bod ni reit nôl gartre. O.K.?

Dic - Sori. Ond rhaid i fi ddweud un peth...

Wendy - Beth nawr eto?

Dic - Dy ges di ydy hwnna?

Wendy - Paid ti â symud. Af fi i nôl e'n hunan. Dw i'n gallu gwneud rhai pethau'n iawn, ti'n gwybod.

Dic - Ddwedes i ddim...

Wendy - I thought we'd agreed to shut up.

Dic - Do. Rydyn ni wedi cytuno...
Wendy - Well, let's shut up then.

Golygfa 2

Arwyn - Ti'n cofio wythnos dwetha?
Jenny - Wythnos ddiwetha, beth rwan?
Arwyn - Pan ddwedodd Brian wrthot ti am Tony.
Jenny - Sori. Wnei di basio'r halen?
Arwyn - Ddwedaist ti ei fod e wedi bod yn cael affêr ers dwy flynedd
Jenny - Dyna be ddwedodd Brian.
Arwyn - Gyda pwy?
Jenny - Partner Tony....
Arwyn - Ie. Dw i'n deall hynny, Jenny. Ond beth ydy ei henw hi?
Jenny - Wnaeth Brian ddim dweud.
Arwyn - Ofynnaist ti iddo fe?
Jenny - Naddo, siwr...
Arwyn - Pam ddim?
Jenny - Doedd o'n ddim o fy musnes i...
Arwyn - Efallai ein bod ni'n ei nabod hi... a dyna pam doedd e ddim yn fodlon dweud ei henw hi wrthot ti...
Jenny - Arwyn...Edrycha...Wnaeth Brian ddim dweud dim byd am yr affêr yma wrtha i...Roedd o wedi sgrifennu'r cwblw i lawr ar ddarn o bapur...Roedd o'n poeni fod ti a gweddill pobl Stad Maes y Cilgwyn yn codi twrw...
Arwyn - Roedd rheswm da gyda ni i godi twrw...
Jenny - Wrth gwrs. Ond dydy Brian ddim eisiau hynny nac ydy? Dyna pam wnaeth o ofyn i mi i ofyn i ti beidio â haslo'r heddlu...
Arwyn - Ond dw i'n siwr fod yr heddlu yn dal i chwilo am Tony...
Jenny - Siwr o fod...
Arwyn - Ac yn gwastraffu amser ar 'false leads'...Ond dyna fe, os na wnaiff Brian ddweud y gwir wrthyn nhw...Does dim byd all neb wneud oes e?
Jenny - Shsh rwan!
Arwyn - Pam? Beth sy'?
Jenny - Ma'e Agnes yn cerdded draw yma...
Arwyn - Ble?
Jenny - Mae hi tu ôl i ti...
Agnes - Oes rhywun yn eistedd yma?
Arwyn - Na, na. Cymer sedd...
Agnes - Mae'r cantîn yma'n llawn heddiw...
Jenny - Fel yna mae hi weithiau...
Arwyn - Sut mae Brian?
Agnes - Eitha. Fyny ac i lawr. Roedd apwyntment gyda'r ffisiotherapydd gyda fe'r bore yma...
Jenny - Dw i'n siwr i fi ei weld o'r bore yma...
Agnes - Siwr o fod...Roedd e fod i mewn yma am unarddeg. Drefnais i bod tacsî yn ei godi e ond doedd dim rhaid i fi...
Jenny - Dydy Brian ddim yn dreifio?
Agnes - Na, na. Gafodd e lifft gan gymydog...
Jenny - Chwara teg...
Agnes - Mae pobl yn garedig iawn...
Arwyn - Esgusodwch fi. Ward Enlli'n galw...
Agnes - Jenny? Alla i ddweud rhywbeth...rhywbeth personol iawn...rhywbeth na aiff ddim pellach na'r ford yma...?
Jenny - Wrth gwrs... Ddweda i ddim gair wrth neb...
Agnes - Achos...wel...dw i'n gorfod dweud wrth rywun...Ond mae pethau'n uffernol yn y ty...A dweud y gwir, roeddwn i'n falch o ddianc i'r gwaith ddoe...
Jenny - Pam? Be sydd?
Agnes - Brian...Mae e'n cael y 'mood swings' yma...Un funud mae e'n iawn...A'r eiliad nesa mae 'off ei Ben'...Dw i'n teimlo fy mod i'n byw mewn ty gyda Jekyll and Hyde...Ac mae meddwl bod pethau'n mynd i fod fel hyn am wthnosau, efallau fisoedd, yn fy hala i'n...

Ysbyty Brynaber: Episode 47

Wendy is discussing her skiing holiday with Arwyn Saunders.

Dic reassures Agnes that her husband will make a full recovery. Agnes relates the events of that evening at Arwyn and Jenny's house when Brian was assaulted.

Geirfa

penigamp	-	excellent
safonau	-	standards
hast (SW)	-	a hurry
gwella	-	improving
yn enwedig	-	especially
canolbwyntio	-	concentrate
dod o hyd i	-	to find
dilyn	-	to follow
erchyll	-	terrible
diffannu	-	to disappear
amau	-	to doubt

Golygfa 1

Arwyn - Sut aeth y gwylie, Nyrs Keating?

Wendy - O.K.

Arwyn - Ble fuoch chi hefyd? Yn yr Italian Alps, ie?

Wendy - Nage. Y French Alps.

Arwyn - Ble yn gwmws?

Wendy - The Valloise Valley. I'r de o Briancon.

Arwyn - Yr Alpau Deheuol felly? Bron yn yr Eidal...

Wendy - Ie. Although, up close, all those massive mountains look exactly the same to me...

Arwyn - Oeddech chi'n licio sgïo 'te?

Wendy - O, rydych chi'n fy nabod i. I gave it a go...

Arwyn - A?

Wendy - Slipped on my bum a lot...Making a right spectacle of myself...But got the hang of it towards the end of the second week...Actually half an hour or so before we were due to board the mini-bus back to Nice airport...

Arwyn - Roeddwn i'n clywed bod Dr Allen yn sgïwr penigamp.

Wendy - Peni-what?

Arwyn - Penigamp. It means excellent.

Wendy - Penigamp. Must remember that. Penigamp.

Arwyn - Ydy e?

Wendy - Beth?

Arwyn - Dr Allen yn sgïwr penigamp?

Wendy - He could zig-zag down a few slopes...Bit of a show off actually. Poncy git...

Arwyn - Nawr, nawr. Iaith. Cofiwch ein bod ni ar y ward. A dydy'r cleifion ddim yn hoffi clywed iaith Fel yna...

Wendy - Mae rhai o'r cleifion yn defnyddio iaith lot waeth...

Arwyn - Ond mae safonau gyda ni...

Wendy - You should hear some of them...'effing' this and 'blinding' that...Especially y merched beichiog...The ones who are about to pop...My God, the air in some of those delivery rooms isn't blue - it's positively purple...

Golygfa 2

Dic - Sister Rees...

Agnes - Dr Allen...Ydych chi ar hast...

Dic - Wedi cael fy ngalw lan i'r orthopaedic ward ydw i...

Agnes - Problem?

Dic - Gaf fi weld...Sut ydych chi?

Agnes - Eitha, chi gwybod...
 Dic - Welais i Mr Rees ddoe...yn mynd draw at y physio...
 Agnes - Mae Brian yn gwella bob dydd nawr...
 Dic - Ydy'r polis yn agosach at ddal 'nutter' yna?
 Agnes - Mae gobaith...Yn enwedig nawr eu bod nhw'n canolbwyntio ar fynd trwy data-base y garej...Maen nhw hefyd wedi edrych trwy CCTV y forecourt i gyd...
 Dic - Pam wnaethon nhw ddim hynny'n gynt 'te?
 Agnes - Roedden nhw'n meddwl taw rhyw fater domestig oedd e...
 Dic - Domestig? Shwt?
 Agnes - Wel, chi'n gwybod...fod Brian wedi bod yn cael affêr...
 Dic - Affêr?
 Agnes - Ie. Mae hynny'n hollol hurt, wrth gwrs. Roedden nhw'n meddwl taw rhyw foi crac - gwr neu bartner - oedd wedi dod i roi crasfa iddo fe...
 Dic - 'Off the mark' oedden nhw?
 Agnes - Brian fyddai'r person diwetha i gael affêr...A dweud y gwir, alwodd Jac Whelan yn y ty neithwr...
 Arwyn - Agnes...Richard...
 Agnes - Arwyn - shwmai?
 Arwyn - Sut wyt ti ydy'r cwestiwn?
 Agnes - Iawn, ti'n gwybod...
 Arwyn - A Brian? Sut mae e?
 Agnes - Roeddwn i'n dweud wrth Dr Allen nawr fod Brian yn dod mlaen yn weddol fach...Mae e'n siarad lot yn gliriach...
 Arwyn - Ydy e'n llai rhwystredig?
 Agnes - Lot llai...
 Arwyn - Gwd...
 Dic - Dw i'n siwr bydd e'n O.K., Sister Rees...
 Agnes - Gewn ni weld yntê...? Roeddwn i jest yn dweud nawr fod Jac Whelan wedi galw heibo neithwr...
 Arwyn - Jac Whelan?
 Agnes - Ffrind Brian. Mae Jac a fe'n mynd i'r 'Motor Show' gyda'i gilydd bob blwyddyn ...Ac roedd e'n bendant yn meddwl taw rhyw gwsmer roiodd grasfa i Brian...
 Dic - Mae'r heddlu yn siwr o'i ddal e 'te...
 Agnes - Gobeitho...
 Dic - Beth oedd 'i enw fe eto? Dwedodd rhywun wrtha i ond dw i ddim yn gallu cofio...
 Arwyn - Tony.
 Dic - Tony?
 Agnes - Ie. Tony. Ti'n cofio'r noswaith, Arwyn?
 Arwyn - Wrth gwrs
 Agnes - Newydd eistedd i lawr i fwyta oedden ni...
 Arwyn - Ie. A'r criw canu carolau 'na newydd ddod at y drws.....
 Agnes - Ac wedyn canodd y gloch...
 Arwyn - Ac o'n i'n meddwl taw rhagor o blant yn canu oedd yno...
 Agnes - Jenny atebodd y drws yntê?
 Arwyn - Ie...
 Dic - A beth ddigwyddodd wedyn?
 Arwyn - Dyna'r peth, Richard...Ddaeth Jenny nôl i mewn a dweud bod rhyw Tony wrth y drws eisiau siarad â Brian ...
 Dic - Sut oedd y boi Tony yma'n gwybod ble i ddod o hyd i Brian 'te?
 Agnes - Rhaid ei fod e wedi ein dilyn ni i dy Arwyn a Jenny...
 Arwyn - Mae'n rhaid...
 Dic - A daeth e i mewn?
 Arwyn - Naddo. Aeth Brian mas ato fe yn y cyntedd...A roedden ni i gyd yn siarad wrth y ford...A'r peth nesa glywon ni...
 Agnes - Oedd y swm crasgo ofnadwy yma...
 Arwyn - Rhaid bod y bachan Tony 'ma wedi bwrw Brian yn erbyn y cwpwrdd gwydr...
 Agnes - Roedd y swm yn erchyll...
 Arwyn - Clatsho mawr...
 Agnes - Aeth pawb draw...
 Arwyn - Ond wrth gwrs, erbyn hynny roedd e wedi diflannu...

Agnes - A Brian ar y llawr mewn pwll o waed...A'r darnau gwydr ym mhobman...A fel dw i'n teimlo nawr...Allen i hanner lladd y boi Tony yma am beth wnaeth e i Brian....

Dic - Pwy bynnag yw e...

Agnes - Ie. Pwy bynnag ddiawl yw e...Achos dw i'n amau a fydd fy ngwr i fyth yr un fath ag oedd e...

Ysbyty Brynaber: Episode 48

Wendy is distinctly disinterested in the holiday snaps that Dic is trying to show her. She tells him that she is thinking of going home over the weekend. When Dic offers to accompany her she says that that would be a waste of time.

Agnes tells Jenny that the police have been searching the garage database and that they have come across information which has led to Brian's arrest.

Geirfa

dishgwl (SW)	-	look
rhywdro	-	sometime
pwyllo	-	to calm down
agwedd	-	attitude
pryd o dafod	-	a telling off
cyfreithwraig	-	solicitor (female)
pellach	-	further
gwybodaeth	-	information

Golygfa 1

Wendy - Dw i'n gorfod mynd, Dic...

Dic - Dishgwl! Dishgwl! A'r llun yma 'te... Ti a fi ar ôl i ni ddod off y lifft ar gopa'r Pic de Chateau Renard...Edrycha ar yr olygfa yma...Ffantastig, e?

Wendy - Mmmm...

Dic - ...A ti'n cofio hwn? Victor Serge? Y barman 'na...Yffach o 'case' oedd Vic yntê? A'r jôcs...Ha!

Wendy - Bit of a twit if you ask me...

Dic - Dwyt ti ddim wedi edrych ar y lluniau yma, Wend...

Wendy - Well i fi fynd...

Dic - Dishgwl eiliad -

Wendy - Na. Mae Sister Rees moyn fy ngweld fi - 'urgently'

Dic - Bwyta dy ginio gynta...

Wendy - Dw i ddim yn teimlo fel bwyd.

Dic - Dw i'n trio ngorau, reit? Ond dwyt ti ddim yn gwneud pethau'n hawdd i fi, wyt ti'n gwybod...

Wendy - I've got to go...

Dic - Ti ffansi mynd mas heno?

Wendy - Dw i'n gweitho.

Dic - Nos yfory 'te? Nos Wener...

Wendy - Na. Dw i'n mynd nôl gartre.

Dic - Tan pryd?

Wendy - Nos Sul.

Dic - Wyt ti eisiau i fi ddod gyda ti?

Wendy - Ti'n ffael. Ti'n gweitho dydd Sadwrn.

Dic - Allen i newid hynny...

Wendy - Na. Paid. Does dim pwynt...

Dic - Pam?

Wendy - I beth? Look! I've got to go...

Golygfa 2

Jenny - Agnes! Be sy'n bod?

Agnes - Wyt ti wedi gweld Nyrs Keating?

Jenny - Do. Bore yma rhywdro...Pam? Beth sydd?

Agnes - Dw i wedi ei galw hi ers deg muned a does dim golwg ohoni...

Jenny - Wyt ti isio i fi helpu?

Agnes - Nac ydw.

Jenny - Siwr?

Agnes - Mae'r ferch 'na mor whit-what...Wnaiff hi byth nyrs...

Jenny - Hei! Pwylla rwan...

Agnes - Pwylo wir. Gaiff hi bryd o dafod gyda fi...Ble yffach ydych chi wedi bod?

Wendy - Sori...

Agnes - Sori, wir! Dw i wedi'ch galw chi ers deg munud, Nyrs Keating.

Wendy - Sori, Sister.

Agnes - Dydy hyn ddim yn ddigon da. Ddim yn ddigon da o bell ffordd...

Wendy - I said I'm sorry.

Agnes - Don't you adopt that tone of voice with me, nurse. Mrs Fellows. Ydych chi'n gwybod pwy ydy hi?

Wendy - The woman with cholecystitis...

Agnes - Ewch ati. Go and see to her. She's complaining of abdominal discomfort...Dw i'n gorfod gadael nawr.

Wendy - O.K.

Agnes - Mae'r ferch yna'n hala fi lan y wal...Welaist ti ei hagwedd hi?

Jenny - Ble rwyd ti'n gorfod mynd?

Agnes - Mae 'crisis'...

Jenny - 'Crisis'? Pa fath?

Agnes - Dw i ddim yn siwr eto...Ond ges i alwad ffôn jest nawr...

Jenny - Gan bwy?

Agnes - Cathy Davies...

Jenny - Cathy Davies? Pwy?

Agnes - Cyfreithwraig Brian a fi...

Jenny - Beth? Oes rhywbeth wedi digwydd i Brian...?

Agnes - O's... Mae hi'n stori hir...

Jenny - Dwed...

Agnes - Ddaeth Jac Whelan draw i'r ty neithwr...

Jenny - Y 'dealer' ceir 'ma?

Agnes - Ie. Dyna ti. Rwyd ti wedi clywed fi'n sôn amdano fe o'r blaen?

Jenny - Do...Sawl gwaith...

Agnes - Ar ôl i'r heddlu fynd drwy 'data base' garej Brian i drio dod o hyd i'r Tony yma...Wel, ddoe fe aethon nhw drwy 'data base' Jac Whelan hefyd...

Jenny - Gawson nhw unrhyw lwc?

Agnes - Naddo...

Jenny - Felly beth ydy'r broblem?

Agnes - Ddaeth yr heddlu ar draws rhyw wybodaeth...

Jenny - Pa fath o wybodaeth...?

Agnes - Dw i ddim cweit yn siwr...

Jenny - Beth ddwedodd Cathy wrthot ti, Agnes?

Agnes - Dim lot...

Jenny - Ond mae rhaid i ti fynd draw i orsaf yr heddlu nawr?

Agnes - Oes...Nawr...

Jenny - Agnes...Gwrandda...Oes yna rywbeth arall, rhywbeth ti ddim yn ddweud wrtha i?

Agnes - Oes...

Jenny - Beth?

Agnes - Alla i ddim dweud nawr...

Jenny - Eith o ddim pellach...

Agnes - Mae Brian wedi cael ei arestio.

Jenny - Arestio? Pryd?

Agnes - Am ddeg o'r gloch bore yma...

Jenny - Brian?

Agnes - Ie. A Jac Whelan...

Jenny - Pam?

Synopsis

Following their skiing holiday relationships are strained between Wendy and Dic.

Police have yet to find Brian's assailant but they have come across some other information on Jac Whelan's database in the garage which has led to Brian being arrested by the police.

Test yourself

1. What is the Welsh for the phrase 'up and down'?
 - a) i lawr ac i fyny
 - b) i lawr ac i lawr
 - c) **i fyny ac i lawr**
2. Translate 'this is mine' into Welsh
 - a) **fi biau hwn**
 - b) pwy biau hwn
 - c) hi oedd biau hwn
3. What is the Welsh for 'a telling off'?
 - a) pryd o fwyd
 - b) pryd o geg
 - c) **pryd o dafod**
4. What's the Welsh word in south Wales for 'a mess'?
 - a) **cawlach**
 - b) coelie
 - c) calliwch
5. What's the Welsh for 'he will have to'?
 - a) **bydd rhaid iddo fe**
 - b) roedd rhaid iddo fe
 - c) mae rhaid iddo fe
6. How would you translate the question 'We went to the Alps' into Welsh?
 - a) Dw i'n mynd i'r Alpau
 - b) Byddwn ni yn yr Alpau
 - c) **Buon ni yn yr Alpau**